Gwobr Ansawdd Genedlaethol
Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru

Welsh Network of Healthy School Schemes
National Quality Award

Adroddiad Gwobr Ansawdd Genedlaethol ar yr ymweliad â Ysgol Dyffryn Conwy

Dyddiad
Mehefin 9fed a'r 10fed, 2016

Adran 1

Arweiniad a Chyfathrebu

Arweiniad

Yr agwedd yma yn gryf a chadarn yn yr ysgol. Roedd pawb y cawsom y fraint o'u cyfarfod yn deall nod ac amcanion y cynllun gan gynnwys y staff, y disgyblion, llywodraethwyr a rhieni. Mae iechyd a lles y disgyblion yn cael blaenoriaeth uchel yn yr ysgol a hyn yn cael ei adlewyrchu yn ymddygiad y disgyblion a'r statws a roddir i staff cefnogi, i'r nyrs ysgol a'r cwnselydd. Mae'r pennaeth yn dangos ymrwymiad clir i'r cynllun a'i amcanion ac yn cael cefnogaeth arbennig o dda gan yr uwch dim rheoli, sydd hefyd yn gweld pwysigrwydd y cynllun i'r disgyblion ac i'r ysgol. Mae cydlynydd y cynllun o fewn yr ysgol, yn brofiadol iawn gyda'r gwaith ac am ei bod hefyd yn gweithio yn yr adran addysg gorfforol ac yn gydlynydd addysg iechyd yr ysgol, wedi medru rhoi ymagwedd ysgol gyfan i'r cynllun. Mae cyfranogiad disgyblion yn arbennig o gryf yn yr ysgol a gwelwyd ymagwedd aeddfed gan yr holl ddisgyblion a roddodd gyflwyniadau i ni neu'r rhai y cawsom siawns i gael sgwrs gyda. Roedd cyfraniad pob un o'r grwpiau disgyblion, y BOBs, y cyngor ysgol, y grŵp eco, y llys genhadon chwaraeon a.y.b. yn dangos ymrwymiad pendant i wella'r ysgol ac i hybu amcanion ac ethos y cynllun Ysgol Iach.

Cyfathrebu

Y safwe ysgol yn un arbennig o dda gydag adrannau penodol i staff, rheini, llywodraethwyr, y gymuned a disgyblion, yn lliwgar ac yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol iawn. Y staff yn cyfarfod bob bore i rannu unrhyw bryderon lles neu newyddion diweddaraf fel bod pawb yn gwybod beth sy'n digwydd o fewn yr ysgol a'i chymuned. Y prosbectws hefyd yn lliwgar a defnyddiol i rieni, a'r cylchgrawn blynyddol, Y Bont, yn gofnod rhagorol o ddigwyddiadau a llwyddiannau pob blwyddyn. Defnyddir dulliau electroneg i gysylltu gyda rheini ac i rannu newyddion da trwy tecstio, trydar ayb. Llais y disgybl yn gryf iawn yn yr ysgol gyda chyngor ysgol a chyngor chwaraeon effeithiol iawn.

Cwricwlwm

Mae'r cynlluniau gwaith o fewn ABCh yn dda, gyda chyfuniad o wersi penodol fewn y daflen amser a gwersi tiwtor yn cyfuno i sicrhau bod yr agwedd yn cael sylw dyladwy ar adeg pan mae cryn bwysau amser ar y cwricwlwm. Y gwersi a gyflwynir gan y tiwtor dosbarth wedi eu paratoi yn drwyadl gydag arweiniad clir yn y pecynnau gwaith. Braf oedd gweld hefyd nad oedd yr ysgol yn dibynnu ar y gwaith a gyflwynir gan swyddog cyswllt yr heddlu trwy'r cynllun Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan ond yn dilyn hyn i fyny gyda gwersi penodol. Calonogol oedd gweld hefyd bod agweddau traws cwricwlaidd yn cael eu hamlygu trwy'r adran wyddoniaeth a'r adran Saesneg e.e. wedi cyflwyno gwaith ar fwyta'n iach.

Anogir y disgyblion yn gryf i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol gyda dewis da o

glybiau ar gael iddynt ar amseroedd cinio ac ar ôl ysgol.

Ethos ac Amgylchedd

Ethos

Mae Ysgol Dyffryn Conwy wedi datblygu eu hymagwedd ysgolion iach dros gynifer o flynyddoedd ac mae hyn wedi gwreiddio yn gadarn yn ethos yr ysgol. Mae'r cynllun yn bwysig i'r ysgol ac yn cael cefnogaeth dda gan y staff. Mae ymddygiad y disgyblion i gyd yn arbennig o dda, gyda chwrteisi yn cael ei amlygu trwy'r ysgol. Roedd y disgyblion y cawsom siawns i sgwrsio gydag yn hynod o fodlon i rannu eu barn yn hyderus ac roeddynt yn hynod o falch o waith da'r ysgol. Y staff dysgu hefyd yn dangos brwdfrydedd at amcanion y cynllun yma. Braf hefyd oedd cael cyfarfod y staff lles a chefnogi oedd yr un mor frwdfrydig i waith yr ysgol. Y geiriau oedd yn codi mewn llawer o'r sgyrsiau a gawsom oedd "holistig" a "cyflawn" sy'n adlewyrchu ymagwedd yr ysgol tuag at y disgyblion. Mae geiriau un rhiant wedi aros yn fy nghof - "Mae bob disgybl yn yr ysgol yn cael eu trin fel unigolyn. Mae pob un yr un mor bwysig i'r staff".

Amgylchedd

Mae adeilad ac amgylchedd yr ysgol yn hynod o daclus a glân a'r safle yn un deniadol gyda chyfleusterau da iawn. Mae'r ffaith bod y ganolfan hamdden yn ynghlwm a'r ysgol yn cynnig mwy fyth o gyfleusterau i hybu'r agwedd o weithgareddau corfforol. Mae'r cwmni masnachol sy'n gyfrifol am y glanhau, y cynnal a'r cadw ac yn cyflenwi'r bwyd ayb i'r ysgol yn sicrhau bod y toiledau yn lân trwy'r dydd ac yn casglu unrhyw sbwriel yn rheolaidd.

Cynnwys Teuluoedd a'r Gymuned

Roedd y trafodaethau a gawsom gyda rhieni a chynrychiolwyr o'r bwrdd llywodraethol yn adlewyrchu'r parch sydd gan y deiliaid yma tuag at waith da'r ysgol tuag at hybu iechyd ac roeddynt yn amlygu'n gryf y gofal a roddir i bob disgybl. Er bod dalgylch yr ysgol yn un arbennig o eang a gwledig, mae gan yr ysgol gymuned gref a rheini yn hynod o falch o waith da'r ysgol. Cysylltiadau da wedi datblygu gyda chlybiau chwaraeon lleol a defnyddir sgiliau arbenigwyr lleol i gyfoethogi addysg y disgyblion. Bu'r grŵp BOBs (Bwyd o Bwys) yn cyflwyno gweithdai yng Ngŵyl Bwyd Llanrwst ac mae cysylltiadau da wedi datblygu gyda'r ysgolion sy'n bwydo'r ysgol, gyda disgyblion a staff yn ymweld i gynnig gweithgareddau ac i hybu'r broses trosglwyddo.

Sylwadau cyffredinol

Roedd y staff i gyd yn groesawgar ac yn awyddus i rannu profiadau gyda ni. Roedd cyfraniad y disgyblion i gyd yn werthfawr iawn gan gynnwys y cyflwyniadau a gawsom, a'i gwybodaeth o

fywyd ysgol ac agweddau iechyd yn dda iawn. Roedd cwrteisi'r disgyblion i gyd a'r parch roeddynt yn ei ddangos at ei gilydd, i staff ac aelodau cymuned ehangach yr ysgol, yn dda iawn.

Cyflwynwyd ystod gynhwysfawr o dystiolaeth yn ystod yr asesiad sy'n amlygu'r ymdrechion mawr y gwnaeth yr ysgol i geisio am y wobr yma. Maent yn dangos yn glir iawn fod gwaith yr ysgol iach yn rhan annatod o ethos yr ysgol. Rhaid rhoi diolch arbennig i'r cydlynydd sydd wedi rhoi cymaint o waith i mewn i sicrhau bod y dystiolaeth i gyd ar gael. Hoffwn i chi sicrhau eich bod, fel ysgol, yn fuan yn penodi unigolyn i gario'r gwaith da yma ymlaen wrth i ymddeoliad y cydlynydd gweithgar presennol agosáu. Diolch yn fawr iawn am y croeso a'r holl waith caled yn ystod yr ymweliad a thros y blynyddoedd.

Adran 2

Bwyd a Ffitrwydd

Mae'r ysgol wedi rhoi pwyslais da ar sicrhau y gall pawb yn yr ysgol elwa o fwyta'n iach a chadw'n heini. Mae polisi bwyd a ffitrwydd cynhwysfawr yn ei le a'r cynllun BOBs yn gweithio'n llwyddiannus yn yr ysgol. Deialog llwyddiannus wedi ei sefydlu gyda'r cwmni masnachol trwy waith y cyngor ysgol a'r BOB's. Mae perthynas agos rhwng y cwricwlwm a gyflwynir, y ddarpariaeth o fwyd, yr anogaeth o weithgareddau corfforol a'r polisi bwyd a ffitrwydd. Mae gwaith yr adran addysg gorfforol yn ardderchog gyda chymaint o gyfleodd i'r disgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol all gyrsiol. Er bod yr ysgol yn llwyddiannus iawn mewn cystadlaethau a thwrnameintiau, yr agwedd bwysicaf i'r adran yw cynhwysedd ac mae'r ffaith bod niferoedd y rhai sy'n ymuno yng ngweithgareddau allgyrsiol corfforol wedi cynyddu cymaint yn adlewyrchu hyn.

Darparu bwyd a diod - Safonau Gofynnol

Cedwir yr holl safonau gofynnol o fewn yr ysgol.

Y ddarpariaeth fwyd yn unol ag argymhellion Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion 2013.

Bwyd

Cryfderau penodol:

- Trefniant amser cinio sy'n sicrhau amgylchedd hynod o waraidd a phleserus i ddisgyblion a staff. Ffreutur safonol gyda digon o ddewis o fwyd iach a diddorol.
- Gwaith y BOB's, yn enwedig y syniad o gael mentoriaid o grŵp BOB's y flwyddyn cynt, a'r gwaith y maent wedi ei wneud gyda'r ysgolion cynradd yn yr Ŵyl Fwyd leol.

Y meysydd i'w datblygu :

Efallai y byddech yn cysidro:

- Sicrhau bod mwy o ffynhonnau oeri dŵr ar gael o fewn adeilad yr ysgol gydag un efallai yn cael ei osod ym mloc Bl12 a 13.
- Os bydd staffio yn caniatáu, yn ystod y flwyddyn nesaf ail edrych ar gynnig y clwb coginio allgyrsiol a fu mor llwyddiannus.

Ffitrwydd

Cryfderau penodol:

- Gwaith arbennig y Llys Genhadon Chwaraeon a'r Cyngor Chwaraeon. Mae'r syniad o gael un llys gennad i arwain agwedd benodol wedi bod yn un arbennig o dda ac yn llwyddiannus iawn yn hybu disgyblion i ymuno mewn amrywiaeth dda o weithgareddau.
- Y dewis dda o weithgareddau corfforol allgyrsiol a gynhigir.
- Y cysylltiadau agos a ddatblygwyd gyda chlybiau chwaraeon lleol sy'n rhoi llwybr pellach

i unrhyw ddisgyblion sydd wedi cael blas ar unrhyw agwedd o chwaraeon.

- Y cyfleusterau arbennig sydd gan yr ysgol i'w defnyddio i gyflwyno'r agwedd yma.
- Llwyddiant arbennig unigolion a thimau'r ysgol ym myd chwaraeon a dros ystod eang o chwaraeon hefyd.
- Gwobr Dug Caeredin boblogaidd a llwyddiannus.
- Y cynllun Aml Gamp ym Ml.10 sy'n caniatáu i'r disgyblion dderbyn y cymhwyster Arweinwyr Chwaraeon a'r ffaith eu bod yn mynd i'r ysgolion cynradd i gyflwyno sesiynau chwaraeon. Hyn yn agwedd bositif iawn ac yn hybu'r gwaith trosglwyddo cynradd/uwchradd.
- Brwdfrydedd, gweledigaeth ac ymrwymiad yr adran Addysg Gorfforol yn yr ysgol.

Y meysydd i'w datblygu :

- Cynnal eich arfer presennol

Iechyd a Lles Meddyliol ac Emosiynol

Mae Iechyd a Lles Meddyliol ac Emosiynol yn ganolog i bopeth sy'n digwydd yn Ysgol Dyffryn Conwy a'r cymorth, y gofal a'r cyfarwyddyd a gynhigir i ddisgyblion a'r staff yn ardderchog. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau yn eu lle, yn dilyn canllawiau lleol a chenedlaethol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r uwch dim rheoli, yr anogwyr dysgu, y nyrs ysgol a'r cwnselydd yn hynod o effeithiol yn eu rolau ac yn cyd weithio gyda gweddill y staff i sicrhau lles yr holl ddisgyblion, gan eu galluogi i ddysgu'n effeithiol.

Cryfderau penodol:

- Y clwb brecwast sydd nid yn unig yn cynnig brecwast ond man diogel a chyfeillgar ar ddechrau'r diwrnod ysgol.
- Cynllun gwaith ABCh yr ysgol sy'n drefnus, diddorol a hawdd ei ddilyn.
- Cyfranogiad disgyblion ar draws ystod oed yr ysgol a'r ffordd aeddfed y mae'r grwpiau hyn yn ymdrin gyda'u gwaith.
- Y defnydd a wneir o addysg cyfoedion e.e. Bydis Addysg Rhyw, Mêts Mwg y llynedd, Aml Gamp gyda'r gwaith yn cefnogi'r broses pontio cynradd/uwchradd, timau'r 6ed syn cefnogi gyda mathemateg, darllen a Chymraeg ayb.
- Ymddygiad a chwrteisi'r disgyblion.
- Gwaith y Clwb Pyramid nid yn unig yn yr ysgol ond yn yr ysgol gynradd leol. Hyn hefyd yn hybu'r pontio.
- Yr wythnos weithgareddau flynyddol dda iawn sy'n parhau tra bod llawer o ysgolion wedi torri i lawr ar hyn.

- Cyngor ysgol trefnus a llwyddiannus.
- Y defnydd o strategaethau megis PASS (Pupil Attitude to Self and School) i gasglu gwybodaeth am anghenion y disgybl a'r dystiolaeth a welwyd sy'n nodi llwyddiant y strategaethau hyn.
- Gwaith y cwnselydd a'r nyrs ysgol.

Y meysydd i'w datblygu :

- Cynnal eich arfer presennol

Datblygu Personol a Chydberthynas

Mae polisïau ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthynas (ARhPh), diogelu ac amddiffyn plant a diogelwch y rhyngrwyd yn eu lle ac yn dilyn canllawiau lleol a chenedlaethol. Mae'r polisïau yma i'w gweld i'r rhieni ar wefan yr ysgol. Mae'r cwricwlwm a'r adnoddau yn briodol i oedran y disgyblion ac yn gyfoes. Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r agwedd yma ac yn darparu rhaglen waith cynhwysfawr sy'n cynnwys gwerthoedd ac ymddygiad yn ogystal â gwybodaeth.

Cryfderau penodol:

- Gwaith y bydis Addysg Rhyw, sef disgyblion o Bl.12. sy'n arbennig o dda. Maent yn cyflwyno gwersi i bob dosbarth ym Ml.9 gan gynnwys gwaith ar atal cenhedlu. Roedd yn fraint cael sgwrsio gyda dwy o'r disgyblion yma yn ystod yr ymweliad.
- Y dull y mae'r ysgol yn addasu'r cwricwlwm i ymateb i ofynion lleol sydd wedi codi e.e. gwersi penodol wedi eu cynnwys ar "secstio" yn dilyn si fod hyn wedi digwydd yn lleol.
- Mae nyrs yr ysgol yn darparu gwasanaeth cyfrinachol wythnosol sy'n cynnwys y gwasanaeth estynedig i ddisgyblion yn eu hystafell benodol yn yr ysgol bob dydd Llun.

Y meysydd i'w datblygu :

- Cynnal eich arfer presennol

Defnyddio a Chamddefnyddio Sylweddau

Mae polisi ar gyfer camddefnyddio sylweddau'r ysgol yn cynnwys gweithdrefnau clir i'w dilyn mewn achos o unrhyw ddigwyddiad. Mae'n cyfeirio at y polisïau eraill sy'n bwysig e.e. polisi iechyd a diogelwch, polisi ymddygiad yr ysgol ac yn cynnwys ffurflenni cyfeirio a chofnodi digwyddiad. Mae fersiwn addas i'r disgyblion ar gael hefyd. Datblygwyd cysylltiadau da gyda swyddog cyswllt yr heddlu.

Defnyddio a Chamddefnyddio Sylweddau – Safonau Gofynnol

Cedwir yr holl safonau gofynnol o fewn yr ysgol.

Cryfderau penodol:

- Cyflwynir y Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan gan swyddog cyswllt heddlu'r ysgol a dilynir hyn gydag addysg sylweddau manwl a diddorol o fewn y cynllun ABCh.
- Yr ysgol yn defnyddio'n effeithiol y nyrs a'r cwnselydd ysgol yn ogystal ag asiantaethau allanol fel y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth ieuenctid i gefnogi gwaith y staff.
- Gwaith y Mêts Mwg, sef cynllun addysg cyfoedion oedd yn cael ei weithredu yn yr ysgol y llynedd.

Y meysydd i'w datblygu :

Efallai y byddech yn cysidro:

- Ceisio ariannu'r cynllun Mêts Mwg fel y gall ail gychwyn o fewn yr ysgol.
- Ychwanegu cyflwyniad ar gyffuriau newydd a'r rhai sy'n ymddangos a'r newidiadau diweddar deddfwriaethol i'r gyfraith cyffuriau ar yr un pryd ag y noson ar e-ddiogelwch yr ydych yn cynllunio ar gyfer rhieni'r tymor yma.

Amgylchedd

Mae'r ysgol yn cymryd rhan yn y cynllun Eco-ysgol ac wedi derbyn y lefel arian. Mae'r adeilad a'r tiroedd ysgol yn daclus a hyfryd ac mewn cyflwr da. Mae gan yr ysgol bolisi cynaliadwy.

Cryfderau penodol:

- Y grŵp BOB's wedi rhedeg gweithdai Masnach Deg.
- Yn ystod Wythnos Gweithgareddau'r llynedd cafwyd gweithdai ar greu ffasiwn o ddeunyddiau wedi eu hailgylchu.
- Ailgylchir yn rheolaidd ac yn ddiweddar mae'r grŵp eco wedi datblygu cynllun ail gylchu plastig o'r ystafell staff i gael ei ddefnyddio mewn gwersi CDT.

- Y grŵp eco wedi mynd i mewn i wersi Bl.10 i geisio hybu diddordeb yn y gwaith amgylcheddol.

Y meysydd i'w datblygu :

Efallai y byddech yn cysidro:

- Rhoi copi o Eco Gòd yr ysgol ym mhob ystafell dosbarth i godi proffil y gwaith amgylcheddol.
- Am nad yw'r disgyblion o fewn yr ysgol yn gyfrifol am gasglu sbwriel am fod hyn yn rhan o gontract y cwmni masnachol, efallai y byddech yn gallu cydweithio gyda Cadw Cymru'n daclus i weithio allan yn y gymuned ar yr agwedd yma.
- Datblygu gerddi yn yr ysgol, gyda mewnbwn gan y disgyblion, fel y gall yr ysgol ddatblygu'r agwedd yma o fewn y cynllun Eco Ysgolion. Bydd hyn wedyn yn dod yn rhan o'r gwaith angenrheidiol i symud ymlaen am y Faner Werdd.

Diogelwch

Mae cydweithrediad da rhwng Sodexo a'r ysgol gyda threfniant clir o ddyletswyddau a chyfrifoldebau, y ddesg gymorth (Help Desk) yn effeithiol iawn. Mae'r corff llywodraethol yn monitro lechyd a Diogelwch bob tymor ac mae llywodraethwyr arbenigol wedi ei benodi. Mae'r ysgol yn ymddiried yn ei disgyblion fel oedolion cyfrifol fel yn y polisi diogelwch, lle mae gan y plant hawl i gael mynediad i'r rhyngrwyd ond ar yr un pryd disgwylir i'r plant fod yn ddefnyddwyr cyfrifol.

Cryfderau penodol:

- Ysgolion yn cyflwyno cwricwlwm perthnasol am ddiogelwch sydd yn adlewyrchu'r gymuned a'u bywydau. Defnydd da iawn o PC Meirion.
- Diogelwch y we yn cael blaenoriaeth fawr yn yr ysgol ac wedi derbyn hyfforddiant yn yr ysgol ar "Sexting"sef anfon negeseuon neu luniau rhywiol-gignoeth ar declyn symudol.
- Parhad o ddysgu Heartstart yn yr ysgol
- Holl staff y gegin yn cwblhau Pasport Diogelwch Bwyd bob blwyddyn
- Disgyblion wedi creu posteri yn annog a rhoi gwybodaeth ar ddiogelwch – diogelwch rhag yr haul ac ysmygu

Y meysydd i'w datblygu :

Efallai y byddech yn cysidro:

- Cael copi o'r cyfnod magu salwch yn y prosbectws ac ar wefan yr ysgol.

Hylendid

Polisi toiledau da yn dangos bod yr ysgol yn sylweddoli bod toiledau sy'n ddiogel a chyffyrddus yn arwain at iechyd, lles ac addysgu da. Mae gan yr ysgol ddau beiriant dŵr a wasanaethir gan Chemisol a'u glanhau gan staff y gegin. Mae gan y disgyblion hawl i yfed dŵr ar unrhyw achlysur ac mae'r disgyblion yn gyfrifol am lanhau eu poteli dŵr.

Hylendid – Safonau Gofynnol

Cedwir at yr holl yr safonau gofynnol.

Mae'r ysgol wedi cael ei hasesu ar gyfer sgôr hylendid bwyd yr Asiantaeth Safonau Hylendid Bwyd a dyfarnwyd sgôr o 5 ar gyfer y gegin ysgol.

Cryfderau penodol:

- Posteri ar sut mae golchi dwylo wedi eu harddangos yn y toiledau
- Defnyddir poteli dŵr ychwanegol pan chwaraeir gemau a golchir hwy gan staff Addysg Gorfforol sydd hefyd yn golchi cit ymarfer corff ar ôl pob gem.
- Mae'r ysgol yn rhan o'r rhaglen imiwneiddio ac mae'r nyrs hefyd ar gael i roi cyngor ynglŷn â thostrwydd, rheoli heintiau a rhoi hyfforddiant meddyginiaeth.
- Perthynas da rhwng y Cyngor Ysgol a Sodexo gydag aelodau Cyngor yr Ysgol yn cwrdd â chynrychiolydd Sodexo i drafod unrhyw broblem neu gwestiwn am yr amgylchedd, bwyd yr ysgol neu'r toiledau. Mae Sodexo wedi ymateb yn ffafriol.

Y meysydd i'w datblygu :

- Cynnal eich arfer presennol

Adborth i ddisgyblion

Hoffwn ddiolch i chi am y cyfle i drafod eich cyfranogiad i'r cynllun ysgolion iach. Roedd y wybodaeth a rannwyd gan y disgyblion y cawsom gyfle i siarad â nhw yn arbennig o dda. Roedd eich atebion i'r cwestiynau am eich ysgol yn dangos ymagwedd aeddfed a gwybodaeth dda o'r materion yr oeddem yn drafod. Roeddech yn frwdfrydig yn eich trafodaethau am yr ysgol a'r cyfleoedd niferus a gwahanol sy'n cael eu cynnig i chi i wella eich dysgu a'ch datblygiad ac yn enwedig eich ffitrwydd.

Roeddech yn groesawgar ac yn agored iawn yn eich trafodaethau ac roedd ymddygiad holl ddisgyblion yr ysgol yn arbennig iawn – yn gwrtais, siriol a chroesawgar. Mae awyrgylch dawel a hapus yn Ysgol Dyffryn Conwy sy'n arwyddocaol, fe dybiaf, o'r ffaith fod y disgyblion yn teimlo yn hapus a diogel yn yr ysgol.

Mae cyfranogiad disgyblion o fewn yr ysgol yn arbennig o uchel a braf yw gweld pobl ifanc sydd mor barod i rannu eu hamser, eu sgiliau a'u haeddfedrwydd gyda disgyblion eraill i'w cynorthwyo i fyw bywydau mwy iach a mwy diogel. Mae gwaith y Bydis Addysg Rhyw, y Llys Genhadon Chwaraeon, y cyngor ysgol, y BOB's a thimau'r 6ed yn arbennig o dda. Da iawn chi i gyd.

Roedd y daith a gawsom o amgylch yr ysgol yn ddiddorol iawn a diolch i'r disgyblion a aeth a ni o amgylch am rannu cymaint o wybodaeth ddefnyddiol gyda ni ar adeg mor brysur yn yr ysgol.

Mae eich ysgol yn bendant yn ysgol iach ac yn dda iawn am hyrwyddo eich iechyd. Rydych yn deall y pwysigrwydd o iechyd da, yn enwedig i'r dyfodol pan fyddwch yn tyfu i fod yn aelodau cydwybodol o'ch cymuned. Hoffwn ddatgan fy niolch i chi am fy helpu gyda'r asesiad a'ch llongyfarch ar y gwaith yr ydych wedi'i gwblhau i wneud eich ysgol yn ysgol sy'n hybu iechyd ac yn dymuno yn dda i chi gyda'ch cynlluniau at y dyfodol.

Dymuniadau gorau a diolch i bawb am wneud ein hymweliad yn un pleserus a diddorol iawn.

Eurwen Hulmston